

Yswiriant cynnwys cartref a delir yn wythnosol



Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg. Mae ar gael mewn
ieithoedd a fformatau eraill ar gais.

This publication is available in English. It is available in other
languages and formats on request.

Gwasanaeth arbennig i denantiaid
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili



Cost Yswiriant

Swm a Yswirir	Safonol	Safonol ag Yswiriant Difrod Damweiniol
£4,000	£0.35	£0.55
£5,000	£0.44	£0.69
£6,000	£0.52	£0.83
£7,000	£0.61	£0.97
£8,000	£0.70	£1.10
£9,000	£0.78	£1.24
£10,000	£0.87	£1.38
£11,000	£0.96	£1.52
£12,000	£1.04	£1.66
£13,000	£1.13	£1.79
£14,000	£1.22	£1.93
£15,000	£1.31	£2.07
£16,000	£1.39	£2.21
£17,000	£1.48	£2.35
£18,000	£1.57	£2.48
£19,000	£1.65	£2.62
£20,000	£1.74	£2.76
£21,000	£1.83	£2.90
£22,000	£1.91	£3.04
£23,000	£2.00	£3.17
£24,000	£2.09	£3.31
£25,000	£2.18	£3.45
£26,000	£2.26	£3.59
£27,000	£2.35	£3.73
£28,000	£2.44	£3.86
£29,000	£2.52	£4.00
£30,000	£2.61	£4.14
£31,000	£2.70	£4.28
£32,000	£2.78	£4.42
£33,000	£2.87	£4.55
£34,000	£2.96	£4.69
£35,000	£3.05	£4.83
£36,000	£3.13	£4.97
£37,000	£3.22	£5.11
£38,000	£3.31	£5.24
£39,000	£3.39	£5.38
£40,000	£3.48	£5.52

Yswiriant Ychwanegol Dewisol – cost ychwanegol

Eiddo Personol	
Swm a Yswirir	Premiwm Wythnosol
£1,000	£0.67
£2,000	£1.34
£3,000	£2.01
£4,000	£2.68

Cadeiriau Olwyn a Sgwteri Symudedd	
Swm a Yswirir	Premiwm Wythnosol
£1,000	£0.83
£2,000	£1.66
£3,000	£2.49
£4,000	£3.32

Cymhorthion clyw	
Swm a Yswirir	Premiwm Wythnosol
£1,000	£0.83
£2,000	£1.66
£3,000	£2.49
£4,000	£3.32

Mae premiymau'n cynnwys Treth Premiwm Yswiriant o 12%

Efallai y bydddech yn hoffi defnyddio'r daflen brisio gyferbyn, i'ch helpu i amcangyfrif faint o yswiriant y mae arnoch ei angen.

Mae'r taliadau a ddangosir yn cynnwys Treth Premiwm Yswiriant ar y raddfa briodol.

Yswiriant y Cartref

Dogfen Wybodaeth am Gynnyrch Yswiriant

Cwmni: Aviva Insurance Limited

Cynnyrch: Cynnwys y Cartref –



Cofrestrwyd yn yr Alban, rhif 2116. Swyddfa Gofrestredig: Pitheavlis, Perth PH2 0NH. Awdurdodir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus a rheoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ac Awdurdod Rheoleiddio Prudential. Rhif

Dyma gynnodeb o'n polisi yswiriant. Cewch hyd i'r holl delerau a'r amodau, ynghyd â gwybodaeth bwysig arall, yn nogfennau'r polisi.

Beth yw'r math hwn o yswiriant?

Mae yswiriant cynnwys y cartref i denantiaid yn eich amddiffyn rhag colled neu ddifrod i'ch Cynnwys. Mae'n cynnwys pethau megis tân, llifogydd, storom, lladrad, dŵr yn dianc ac ymsuddiant – fel y disgrifir yn ein llyfryn polisi



Beth sydd wedi'i yswirio?

Chi fydd yn pennu'r swm y byddwn yn ei dalu i brynu nwyddau newydd.

Cynnwys

- ✓ Colled neu ddifrod i gynnwys yn y cartref a'i garej, adeiladau allanol neu erddi
- ✓ Gosod cloeon newydd ar ddrws allanol os caiff yr allwedd i eu colli neu eu dwyn
- ✓ Difrod damweiniol i offer sain, fideo neu gyfrifiadurol yn eich cartref
- ✓ Atebolrwydd personol – os ydych yn gyfrifol yn gyfreithiol am ddifrod i drydydd parti neu ddifrod i'w eiddo
- ✓ Atebolrwydd tenantiaid – Os ydych yn atebol yn gyfreithiol am ddifrodi eiddo eich landlord (hyd at 20% o swm yr yswiriant)
- ✓ Difrod i fwyd rhewgell a achosir gan newid yn y tymheredd (uchafswm – hyd at y swm sydd wedi'i yswirio)

Yswiriant dewisol

- Estyniad difrod damweiniol i gynnwys –yn yswirio'r rhan fwyaf o gynnwys.
- Eiddo personol – Yswiriant byd-eang yn erbyn lladrad, colled neu ddifrod damweiniol i ddillad, ffonau symudol, cyfrifiaduron llechen, bagiau llaw, gemwaith, oriorau a beiciau pedal.
- Cadeiriau olwyn / Sgwteri Symudedd – Yswiriant byd-eang ar gyfer lladrad, colled neu ddifrod i'ch cadair olwyn neu sgwter symudedd
- Cymhorthion Clyw – Yswiriant byd-eang ar gyfer lladrad, colled neu ddifrod i'ch cymhorthion clyw



Beth nad yw'n cael ei yswirio?

- x Difrod yn sgil traul, methiant trydanol a mecanyddol, neu ddirywiad graddol
- x Pydredd gwlyb neu sych
- x Difrod storom i ffensys, gatiâu a chloddiau
- x Colledion a difrod penodol (e.e. yn sgil pibelli'n byrstio) i adeiladau neu gynnwys pan nad yw eich cartref wedi'i feddiannu am fwy na nifer y dyddiau a ddangosir yn ein llyfryn Polisi
- x Colledion neu ddifrod penodol (e.e. lladrad neu ddifrod maleisus) a achoswyd gennych chi, gwsteion sy'n talu neu denantiaid
Y gost o brynu eitemau newydd yn lle'r rhai a ddifrodwyd sy'n rhan o bâr, set neu swit
- x Cerbydau modur, awyrennau, cychod, byrddau, carafanau neu drelars.

Yswiriant dewisol – yr hyn nad yw'n cael ei gynnwys

- Difrod Damweiniol – Difrod a achoswyd gan anifeiliaid anwes yn cnoi, yn crafu neu'n baeddu
- Eiddo Personol – Difrod i rai offer chwaraeon wrth iddynt gael eu defnyddio.



A oes unrhyw gyfyngiadau ar yr yswiriant?

- ! Gall rhai cyfyngiadau fod yn berthnasol i'ch polisi. Er enghraifft:
 - terfynau ariannol ar gyfer yswiriant penodol, a/neu
 - cymalau sy'n eithrio rhai mathau o golled neu ddifrod
- ! Nid ydym yn cynnwys eiddo sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer busnes neu broffesiwn (ac eithrio rhai offer swyddfa cartref o dan yr yswiriant cynnwys) oni bai ein bod wedi cytuno'n benodol i wneud hynny.
- ! Y swm dros ben (y swm sy'n rhaid i chi ei dalu ar gyfer unrhyw hawliad)

Yswiriant dewisol – cyfyngiadau

- Nid yw rhai o'n hopsiynau difrod damweiniol yn cynnwys difrod pan fydd eich cartref yn cael ei fenthyca, ei osod (neu ei is-osod) neu ei ddefnyddio gan westeion sy'n talu.
- Dim ond os ydynt wedi'u gosod yn sownd iawn pan nad oes neb yn gofalu amdanynt y byddwn yn yswirio yn erbyn lladrad beiciau pedal
- Mae cyfyngiadau ar eiddo personol sy'n cael ei ddwyn o gerbyd heb neb yn gofalu amdano
- Nid yw rhai o'n hopsiynau difrod damweiniol yn cynnwys difrod pan fydd eich cartref yn cael ei fenthyca, ei osod (neu ei is-osod) neu ei ddefnyddio gan westeion sy'n talu.



Ble mae'r yswiriant yn weithredol?

- ✓ Yn y cartref rydych yn ei yswirio – cyn belled â'i fod o fewn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd Y Sianel neu Ynys Manaw
- ✓ I ffwrdd o'r cartref (o fewn Ynysoedd Prydain) – os byddwch yn prynu yswiriant cynnwys, bydd yswiriant cyfyngedig yn weithredol ar gyfer eitemau allan o'r cartref dros dro
- ✓ Mae Yswiriant Difrod Dros Dro Dewisol yn berthnasol i eitemau y tu fewn i'ch cartref yn unig; mae Yswiriant Eiddo Personol Dewisol yn berthnasol unrhyw le yn y byd



Beth yw fy rhwymedigaethau?

- Rhaid i chi gymryd gofal rhesymol i ateb unrhyw gwestiynau y byddwn yn eu holi'n gyflawn ac yn gywir – waeth eich bod yn prynu yswiriant o'r newydd, yn adnewyddu'ch polisi neu'n gwneud
- Rhowch wybod i weinyddwr eich cynllun ar unwaith os yw'r wybodaeth a nodwyd yn y ffurflen gais neu'ch atodlen yn newid
- Rhaid i chi lynu wrth a chyflawni telerau, darpariaethau, amodau a chymalau'r polisi hwn – gallai methu â gwneud hynny effeithio ar eich yswiriant
- Rhaid i chi roi gwybod i ni am unrhyw ddiwyddiad a allai arwain at hawliad cyn gynted â phosibl
- Byddwn yn rhoi gwybod i chi pa wybodaeth sydd angen i chi ei rhoi i ni er mwyn datrys unrhyw hawliad. I weld y manylion yn llawn, gweler yr adran "Amodau Cyffredinol" yn y llyfryn polisi.



Pryd a sut i dalu?

Gallwch dalu'ch premiwm i weinyddwr y cynllun. Gweler y manylion yn ein llyfryn polisi.



Pryd bydd yr yswiriant yn dechrau ac yn gorffen?

O'r dyddiad dechrau (a ddangosir yn eich Amserlen Polisi). Bydd eich polisi yn parhau mewn grym tan y dyddiad dechrau cyhyd â'ch bod yn parhau i dalu'ch premiwm – noder y bydd rhai cynlluniau yn cael eu hadnewyddu'n flynyddol.



Sut i ganslo'r contract?

Gallwch ganslo'ch polisi o fewn 14 diwrnod ar ôl ei brynu (neu ei adnewyddu lle bo'n briodol) neu o'r diwrnod rydych yn derbyn eich dogfennau polisi (neu'ch dogfennau adnewyddu lle bo'n briodol), p'un bynnag sydd hwyraf.

Os byddwch yn canslo cyn i'r yswiriant ddechrau, byddwn yn ad-dalu'r premiwm rydych wedi'i dalu.

Os byddwch yn canslo ar ôl i'ch yswiriant ddechrau, byddwn yn lleihau eich ad-daliad yn ôl yr amser y cawsoch eich yswirio. Gallwch ganslo'ch polisi ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod yr yswiriant hefyd. I ganslo'ch polisi, cysylltwch â gweinyddwyr eich cynllun.